# LEWIS, JOHN (fl. 1728-55), argraffydd a chyhoeddwr

**Enw:** John Lewis
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** argraffydd a chyhoeddwr
**Maes gweithgaredd:** Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Brodor o Faesyfed ydoedd, brawd iddo, meddir, oedd Thomas Lewis, y cynghorwr Methodistaidd. Yr oedd yn Llundain yn 1728, a daeth i'r amlwg c. 1740 fel cyhoeddwr i'r cymdeithasau crefyddol. Ei gartref ysbrydol oedd y Tabernacl, Moorfields, neu seiat Fetter Lane. O'i swyddfa yn Bartholomew Close dechreuodd gyhoeddi *The Christian's Amusement* yn 1740-1, cyhoeddiad wythnosol yn cynnwys llythyrau, gan mwyaf, oddi wrth George Whitefield a'i ohebwyr. Parhaodd y papur am rai blynyddoedd dan y teitlau amrywiol *The Weekly History*, 1741-2, *An Account of the Progress of the Gospel*, 1743-4), a *The Christian History*, 1744-5. Cyhoeddodd lawer o lyfrynnau o waith Methodistiaid y cyfnod. Bu farw 13 Mai 1755, a chladdwyd ef yn Bloomsbury. Yr oedd ei wraig a'i blant yn Forafiaid.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau

*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, ii-v, passim

*Proceedings of the Wesley Historical Society*, xxi, 128-30

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733535

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu